



Craffu ar weinyddiaeth gyhoeddus

YMATEB GAN CGGC

1. Cyngor Gweithredu Gwirfoddoli Cymru (CGGC) yw'r mudiad aelodaeth cenedlaethol ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru. Ein diben yw galluogi mudiadau gwirfoddol i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd.
2. Diolchwn i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus am cyfle i gynnig ein barn ar yr ymgynghoriad pwysig hwn. Diolchwn hefyd i'r mudiadau o'r sector gwirfoddol a ymgysylltodd â ni a darparu gwybodaeth hanfodol ar gyfer ein hymateb.

EGWYDDORION AC ARFERION GORAU WRTH GRAFFU AR WEINYDDIAETH GYHOEDDUS

3. Mae angen mwy o gydlyniant a chyd-ddealltwriaeth ar draws portffolios y llywodraeth o rôl y sector gwirfoddol a'i ryngweithiadau â'r sector cyhoeddus. Mae angen mwy o eglurder o fewn y portffolios a'r isadrannau hynny o ran sut i sefydlu, meithrin a chynnal y cydberthnasau hynny. Mae angen hyn er mwyn i'r sector gwirfoddol allu craffu'n effeithiol ar wasanaethau cyhoeddus, boed hynny'n annibynnol neu mewn cydweithrediad â'r sector cyhoeddus.
4. O ran y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru): er bod y Cod Ymarfer yn amlinellu'r hyn a ddisgwylir gan fudiadau a chyrrff, a'r dyletswyddau a osodir arnynt, nid yw'r mudiadau a'r cyrrff hyn yn cael eu dwyn i gyfrif gwirioneddol yn aml. Mae adroddiadau archwilio, wrth gwrs, gyda rhestr o argymhellion, ond sut gallwn ni fod yn sicr bod yr argymhellion hyn yn cael eu hystyried a'u cyflawni'n effeithiol? Mae atebolrwydd a thryloywder yn allweddol yma.
5. Rhaid craffu'n ofalus ar sut mae egwyddorion cyd-gynhyrchu a llais a rheolaeth y defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu rhoi ar waith ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol.

6. Rhaid i reolau gweithdrefnol fod ar gael ar ystod eang o fformatau ac mewn ystod eang o ieithoedd, nid yn Gymraeg a Saesneg yn unig.
7. Pan fydd dinasyddion a mudiadau yn cyfrannu at ymgynghoriadau, digwyddiadau ymgysylltu ac ati, dylid diweddarau cyfranogwyr ar sut mae eu cyfraniadau wedi'u defnyddio a'r gwahaniaeth y maen nhw wedi'i gwneud.
8. Mae'n bwysig bod cofnodion o gyfarfodydd partneriaeth strategol ar gael mewn modd amserol a hygyrch er tryloywder ac eglurder.
9. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Pwyllgor yn gallu cyhoeddi rhai astudiaethau achos sy'n dangos beth, yn eu tyb nhw, yw'r arferion gorau mewn gweinyddiaeth gyhoeddus.

GWYBODAETH A THYSTIOLAETH SYDD EU HANGEN AR Y PWYLLGOR I GADW TROSOLWG EFFEITHIOL O WEINYDDIAETH GYHOEDDUS

10. Pan fydd cyrff cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd, mae'n rhaid iddynt ddeall a chofnodi effeithiau hirdymor tebygol y penderfyniadau y maen nhw'n eu gwneud ar gynnydd Cymru tuag at saith nod llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, a sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael i bawb, gan gynnwys y Pwyllgor. Mae cael didwylledd a thryloywder wrth werthuso'r gwahaniaethau y mae gwaith craffu wedi'u gwneud i wella gwasanaethau cyhoeddus ac arferion yn hanfodol.
11. Mae'n rhaid i Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb gael eu cydgynhyrchu â defnyddwyr gwasanaethau, gyda phrosesau eglur i herio penderfyniadau. Mae adroddiadau nad yw hyn yn digwydd yn gyson. Mae gan yr adroddiad [Drws ar Glo](#) fwy ar effaith hyn ar bobl anabl.
12. Rhaid hefyd cofnodi llwyddiant, neu fel arall, camau a gymerwyd i gynnwys lleisiau amrywiol, ynghyd â'r gwahaniaeth y mae cyfraniadau dinasyddion wedi'i wneud.
13. Mae [Porth Data'r Sector Gwirfoddol](#) yn cynnwys cyfoeth o wybodaeth ystadegol ynghylch gweithgarwch, cyllid ac incwm y sector gwirfoddol, sy'n mynd yn ôl nifer o flynyddoedd. Byddai hwn yn offeryn amhrisiadwy i'r Pwyllgor os oeddent yn ystyried effaith gwasanaethau'r sector gwirfoddol.
14. Mae [Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd](#) CGGC, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru, yn offeryn defnyddiol i gyrrff sicrhau eu bod yn ymhél yn effeithiol â chymunedau ac unigolion.

MATERION BLAENORIAETHOL Y GALLENT DDYMUO EU HYSTYRIED

15. Dylai'r pwyllgor, fel blaenoriaeth, geisio edrych ar gyflawniad parhaus Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, o ran monitro'r cynnydd yn erbyn y cerrig milltir a'r dangosyddion cenedlaethol, ac o ran sut y caiff ei rhoi ar waith gan gyrff cyhoeddus ar lefelau amrywiol. Mae adroddiad y pwyllgor o fis Mawrth 2021, [Cyflawni ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol: Y stori hyd yma](#) yn lle gwerthfawr i ddechrau yma, ond bod y gwaith hwn yn parhau i gael ei ymwreiddio ar draws gyrff cyhoeddus. Mae ei gweithrediad hefyd yn amrywio ledled Cymru.

16. Mae cael didwylledd a thryloywder wrth werthuso'r gwahaniaethau y mae gwaith craffu wedi'u gwneud i wella gwasanaethau cyhoeddus ac arferion yn hanfodol. Rhaid cofnodi llwyddiant, neu fel arall, camau a gymerwyd i gynnwys lleisiau amrywiol, ynghyd â'r gwahaniaeth y mae cyfraniadau dinasyddion wedi'i wneud.

17. Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn amhrisiadwy i graffu ar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ond mae'n bwysig bod y Pwyllgor yn ymwybodol o'r problemau sy'n wynebu'r sector gwirfoddol a chynrychiolwyr dinasyddion ar y Byrddau hyn. Mae mwy o lawer o gynrychiolwyr statudol na chynrychiolwyr sector ar lawer o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Yn aml, disgwylir i un unigolyn fod yn llais i'r holl sector gwirfoddol - sy'n amhosibl i sector mor amrywiol ag ein un ni - ac awgryma adroddiadau bod yr unigolyn hwnnw yn teimlo ei fod yn cael ei drin fel partner iau ar y Bwrdd. Mae problemau tebyg yn codi o ran cynrychiolwyr dinasyddion a gofalwyr. Mae angen mwy o gymorth ar gynrychiolwyr dinasyddion a chynrychiolwyr gwirfoddol i gyflawni'r gofyniad a nodwyd, sef bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn 'dangos eu bod yn ymgysylltu ac yn cyd-gynhyrchu â dinasyddion'. Rhaid i bartneriaid eraill ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol hefyd gael eu helpu i ddeall pwysigrwydd y cynrychiolwyr penodol hyn.

18. Bydd Cyd-bwyllgorau corfforaethol yn bwysig yn y gwaith o lunio sut mae'r llywodraeth leol yn cydweithio'n rhanbarthol. Mae'n hanfodol fod prosesau craffu o ansawdd uchel ar waith fel y gallwn ni fod yn siŵr bod Cyd-bwyllgorau corfforaethol yn annog cydgynhyrchiad gwasanaethau cyhoeddus.

19. Unwaith y bydd y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol a'r Cynllun Gweithredu LHDTTC+ wedi'u lansio, mae'n rhaid craffu ar waith cyrff o ran sut maen nhw'n bodloni amcanion y dogfennau hyn.

TRAFODAETH

20. Mae CGGC yn fodlon trafod y pwyntiau hyn neu unrhyw bwyntiau eraill sy'n ymwneud â'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad gyda swyddogion, pwyllgorau, Aelodau o'r Senedd neu Weinidogion yn ôl y gofyn.

David Cook,
Swyddog Polisi, CGGC
dcook@wcva.cymru

Tachwedd 2021